

Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 4th March 2015 at 6.55 pm**

PRESENT: - The Deputy Mayor, Councillor Dewi Williams
Councillors Mrs L Day (Chairman)
S Ashworth D Llewelyn R K Marshall
Mrs J Forsyth D Madge J Martin
D Hainge Mrs J Marshall M Rowlands
John Wynn Jones G O Roberts

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk

230/15 APOLOGIES

Apologies for absence were received from Her Worship the Mayor, Councillor Mrs E Butler and Councillors C King, N Pickavance, (unwell) M Shultan (unwell) and E H Williams (unwell).

231/15 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

None

232/15 URGENT MATTERS

None.

233/15 2018 REVIEW OF PARLIAMENTARY CONSTITUENCIES IN WALES

The Town Clerk reported that the Boundary Commission for Wales had announced the number of constituencies for each part of the UK and that the electoral quota would be used for the forthcoming review over the Parliamentary Constituencies. For the purposes of the 2018 review the proposed allocation of seats for Wales would be 29 rather than the previous allocation of 40 a reduction of 11 seats.

RESOLVED that the Town Clerk to respond to the correspondence indicating the Council's dissatisfaction with the reduction in seats and the knock-on effect for elected representatives and their constituents.

234/15 STATUTORY GUIDANCE FOR THE WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

The Town Clerk reported that following the publication of the Act, the Statutory Guidance had now been issued specifically aimed at Community and Town Councils that would be subject to the duty to take all reasonable steps to meet local objectives set out in the local Well-being Plan for the area. The first Well-being Plans would be produced in 2018 and therefore the duty on those Community and Town Councils to meet the criteria to contribute to the objectives in those plans would not take effect until 2018.

RESOLVED that the report be received.

235/15 LOCAL GOVERNMENT ETHICAL FRAMEWORK REVISION 2016 AND LOCAL GOVERNMENT MODEL CODE OF CONDUCT (WALES) AMENDMENT 2016

The Town Clerk reported that the new Model Code had amended the Model Code of Conduct for Local Government Members and effectively transferred responsibility for maintaining the Register of Interest of Members of Community Councils from the Monitoring Officer of the Principal Authority of the area to the Proper Officer of each Community or Town Council with effect from 1st May 2015. The City Council must within 6 months of the date of the Order, which was 27th January 2016 adopt a revised Code of Conduct. Authorities were advised to adopt a revised Code no later than the forthcoming Annual Meeting.

RESOLVED that the City Council adopt the new Model Code of Conduct for Members and Co-opted Members with voting rights, as previously circulated by the Town Clerk.

236/15 APPOINTMENT OF INTERNAL AUDITOR

The Town Clerk reported that it was necessary under the Audit Regulations for the Council formally appoint an Internal Auditor every year. This had not taken place for the Financial Year 2015/2016. In the interests of continuity it was suggested that the existing Internal Auditor be appointed to carry out the Audit.

RESOLVED that Mr John Roberts be formally appointed as Internal Auditor for Financial Year 2015/2016.

237/15 MEMBERSHIP OF ONE VOICE WALES 2016/17

Members considered renewal of the Councils Membership of OVW and the service received. One Voice was the main dialogue link between Town and Community Councils and Welsh Government. Members noted that the annual subscription was rather expensive, however, it was felt that now was not the right time to withdraw membership given the forthcoming changes to Local Government in Wales.

RESOLVED that membership of One Voice Wales be renewed for 2016/2017.

238/15 COMPLAINTS PROCEDURE

The Town Clerk had circulated a draft Complaints Procedure for consideration. Members noted that this document would be translated into Welsh and conform to the Welsh Language Policy operated by Bangor City Council as with all other policies and guidance and would be placed on the Council's website

RESOLVED that the Complaints Procedure, as outlined, be approved.

239/15 CITY CENTRE PARTNERSHIP

The Town Clerk updated Members with the latest actions and information with regard to activities undertaken under the auspices of the CCP. With regard to a question raised on support given to local events by both Bangor City Council and the CCP it was noted that any requests for assistance and resources would be considered.

240/15 INVOICES FOR PAYMENT

Voucher Nos 181/15 to 196/15 totalling £18,081.21 were passed for payment

241/15 ESTATES UPDATE

The Town Clerk updated Members on the various works that had gone on or were about to be undertaken:-
Penrhyn Hall – Wi-Fi now installed and working, Projector Screen – fitted, Kitchen stripped out and to be re fitted, Fire alerts and alarms now compliant with regulations.

Pier – a number of proposals for work including painting kiosk roofs, seating, lighting and decking maintenance, Pavilion sub-structure and car park – some or all of this work would require Listed Building planning consent.

It was also noted that a special window would be placed in the end shelter commemorating the training ship HMS Conway which was moored off the Pier from 1941 to 1949. The window would have an engraved hologram of the ship and would be installed at no cost to the Council.

Menai Woods – works had commenced to remove vegetation, trees etc. encroaching onto the main road. Traffic signals would be in place on occasions during the operation of this work.

RESOLVED that the report be received and the actions undertaken be endorsed.

242/15 FINANCIAL APPROVALS AND BANKING

The Town Clerk informed Members that the application for Internet Banking had now been submitted and subject to approval process being completed by the Bank, future invoice approvals would be submitted to the Mayor, Deputy Mayor, Chair and Vice-Chair of Finance and General Purposes Committee. Subject to at least 2 of these members agreeing the invoice would be authorised for payment by 2 members of staff and a list of all invoices would be available for perusal as and when required.

RESOLVED that the request be received.

The Meeting finished at 8.25pm

Cofnodion y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, Nos Lun 4^{ydd} o Ebrill 2016 am 7.45 y.h.

PRESENNOL :- Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd D Williams

Cynghorwyr	Mrs L Day (Cadeirydd)		
	S Ashworth	D Llewelyn	J Martin
	Mrs J Forsyth	D Madge	M Rowlands
	D Hainge	Mrs J Marshall	G O Roberts
	John Wynn Jones	R K Marshall	

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

230/15 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Ei Theilyngdod y Maer, y Cynghorydd Mrs E Butler y Cynghorwyr C King, N Pickavance, (salwch) M Shultan (salwch) ac E H Williams (salwch).

231/15 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim

232/15 MATERION BRYD

Dim

233/15 AROLWG 2018 O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU

Adroddodd Clerc y Dref fod y Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi cyhoeddi'r nifer o etholaethau ar gyfer pob rhan o'r DU ac y byddai'r cwota etholaethol yn cael ei ddefnyddio yn yr adolygiad a wneir o Etholaethau Seneddol. At ddibenion adolygiad 2018, cynigir dyraniad o 29 o seddi i Gymru, yn hytrach na'r dyraniad blaenorol o 40, gostyngiad o 11 o seddi felly.

PENDERFYNWYD fod Clerc y Dref i ymateb i'r ohebiaeth yn nodi anfodlonrwydd y Cyngor â'r gostyngiad mewn seddi a'r effaith ganlynol ar gynrychiolwyr etholedig a'u hetholwyr.

234/15 CANLLAWIAU STATUDOL DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Adroddodd Clerc y Dref, yn dilyn cyhoeddi'r Ddeddf, fod Canllawiau Statudol wedi'u cyhoeddi bellach a anelir yn benodol at Gyngorau Cymuned a Thref a fyddai'n dod o dan y ddyletswydd i gymryd bob cam rhesymol i gwrrd â'r amcanion lleol a osodwyd yn y Cynllun Llesiant i'r ardal. Byddai'r Cynlluniau Llesiant cyntaf yn cael eu cyhoeddi yn 2018 ac felly ni fyddai'r ddyletswydd ar y Cyngorau Cymuned a Thref hynny i fodloni'r meini prawf fyddai'n cyfrannu at yr amcanion yn y cynlluniau yn dod i rym tan 2018.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

235/15 ADOLYGIAD FFRAMWAITH MOESEGOL LLYWODRAETH LEOL 2016 A DIWYGIAD COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2016

Adroddodd Clerc y Dref fod y Cod Enghreifftiol newydd wedi diwygio'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol i Aelodau Llywodraeth Leol. Roedd yn trosglwyddo cyfrifoldeb dros gynnal Cofrestr Buddiannau Aelodau Cyngorau Cymuned o Swyddog Monitro Prif Awdurdod yr ardal i Swyddog Priodol pob Cyngor Cymuned neu Dref a hynny o 1 Mai 2015. Mae'n rhaid i Gyngor y Ddinas, o fewn 6 mis i ddyddiad y Gorchymyn, sef 27 Ionawr 2016, fabwysiadu Cod Ymddygiad diwygiedig. Cynghorir Awdurdodau i fabwysiadu Cod diwygiedig ddim hwyrach na'r Cyfarfod Blynyddol sydd ar fin digwydd.

PENDERFYNWYD y bydd Cyngor y Ddinas yn mabwysiadu'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio, fel ag y'i dosbarthwyd yn flaenorol gan y Clerc.

236/15 PENODI ARCHWILYDD MEWNOL

Adroddodd Clerc y Dref ei bod yn angenrheidiol o dan y Rheoliadau Archwilio, fod y Cyngor yn penodi'n ffurfiol Archwilydd Mewnol bob blwyddyn. Nid oedd hyn wedi digwydd ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2015/2016. Er mwyn dilyniant, awgrymwyd penodi'r Archwilydd Mewnol presennol i gynnal yr Archwiliad.

PENDERFYNWYD penodi Mr John Roberts yn ffurfiol yn Archwilydd Mewnol i'r Flwyddyn Ariannol 2015/2016.

TUDALEN 61

237/15 AELODAETH UN LLAIS CYMRU 2016/17

Bu'r Aelodau'n ystyried adnewyddu Aelodaeth y Cyngor o Un Llais Cymru a'r gwasanaeth a geir. Un Llais oedd y prif gyswllt rhwng Cynghorau Tref a Chymuned a Llywodraeth Cymru. Nododd yr Aelodau fod y tanystrigiad blynyddol yn eithaf drud, ond, y teimlad oedd nad dyma'r amser i dynnu'r aelodaeth o ystyried y newidiadau sydd ar fin digwydd i Lywodraeth Leol yng Nghymru.

PENDERFYNWYD adnewyddu aelodaeth o Un Llais Cymru ar gyfer 2016/2017.

238/15 GWEITHDREFN GWYNO

Roedd Clerc y Dref wedi dosbarthu Gweithdrefn Gwyno ddrafft i'w hystyried. Nododd yr Aelodau y byddai'r ddogfen hon yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg i gydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg Cyngor Dinas Bangor, fel y polisiau a'r canllawiau eraill, ac y byddai'n cael eu gosod ar wefan y Cyngor.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Weithdrefn Gwyno, fel ag y'i hamlinellwyd.

239/15 PARTNERIAETH CANOL Y DDINAS

Adroddodd Clerc y Dref y camau a'r wybodaeth diweddaraf o ran gweithgareddau a wnaed o dan nawdd y Bartneriaeth. Cafwyd cwestiwn am y cymorth a roddir i ddigwyddiadau lleol gan Gyngor Dinas Bangor a Phartneriaeth Canol y Ddinas a nodwyd y byddai unrhyw geisiadau am gymorth ac adnoddau yn cael eu hystyried.

240/15 ANFONEBAU I'W TALU

Caniatáu talu'r anfonebau fel eu ceir yn y Rhestr, yn cynnwys Talebau Rhif 181/15 – 196/15 yn rhoi cyfanswm o £18,081.21.

241/15 DIWEDDARU STADAU

Rhoddodd Clerc y Dref y diweddaraf i'r Aelodau am amrywiol waith a oedd wedi digwydd neu ar fin cael ei wneud:-
Neuadd y Penrhyn - Wi-fi bellach wedi ei osod ac yn gweithio, Sgrin y Taflunydd - wedi'i osod, y Gegin wedi'i thynnu ac yn barod i gael ei hail-osod, Rhybuddion a larymau tân yn cydymffurfio â'r rheoliadau erbyn hyn.

Y Pier - nifer o gynigion am ddarnau o waith yn cynnwys peintio to'r ciosgau, seddi, goleuadau a chynnal a chadw'r decin, isadeiledd y Pafiliwn a'r maes parcio - byddai rhywfaint os nad y cyfan o'r gwaith hwn angen caniatâd cynllunio Adeilad Rhestredig.

Nodwyd hefyd y byddai ffenestr arbennig yn cael ei gosod yn y gysgodfa yn y pen draw er cof am y llong hyfforddi HMS Conway a oedd wedi'i hangori oddi ar y Pier o 1941 i 1949. Ar y ffenestr byddai hologram ysgythredig o'r llong a byddai'n cael ei gosod heb unrhyw gost i'r Cyngor.

Coed Menai – roedd gwaith wedi dechrau i dynnu llystyfiant, coed ayb. a oedd yn gorgyffwrdd â'r brif ffordd. Byddai arwyddion traffig yn eu lle ar adegau tra bod y gwaith hwn yn cael ei wneud.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chadarnhau'r gwaith sydd i'w wneud.

242/15 CYMERADWYAETHAU ARIANNOL A BANCIO

Hysbysodd Clerc y Dref yr Aelodau fod y cais am Fancio ar y Rhyngryd wedi'i anfon erbyn hyn ac, yn amodol ar y Banc yn cwblhau'r broses gymeradwyo, byddai cymeradwyaeth anfonebau yn y dyfodol yn cael eu hanfon at y Maer, y Dirprwy Faer, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol. Yn amodol ar gytundeb o leiaf 2 o'r aelodau hyn, byddai'r anfoneb yn cael ei awdurdodi i'w dalu gan 2 aelod o'r staff. Byddai rhestr o'r holl anfonebau ar gael i'w gweld fel a phan fyddai angen.

PENDERFYNWYD derbyn y cais.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.30 p.m.